Diweddariadaur wythnos o WCVA

22 Mai 2019

Helo, a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Gwobrau Arwain Cymru yw'r gwobrau blynyddol ar gyfer arweinyddiaeth yng Nghymru. Maent bellach yn derbyn enwebiadau mewn 9 categori – gan gynnwys Arweinyddiaeth yn y Sector Gwirfoddol a Dielw. Os oes gennych ffrind neu gydweithiwr sy'n gwneud gwaith rhagorol fel arweinydd trydydd sector, beth am ei enwebu yn y categori hwn cyn dydd Gwener 7 Mehefin.

Mae ein cynhadledd Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Llywodraeth Cymru yn digwydd yfory yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Peidiwch â cholli'r cyfle cyffrous hwn i'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ddod at ei gilydd i ystyried sut y gallwn drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol. Jyst trowch lan am 10 yfory i gorfrestru - am fwy o wybodaeth a'r rhaglen llawn ewch i'r wefan.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi eto wythnos nesaf.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Cyflwyniad i ddiogelu yn y trydydd sector (Cymru)
Cyfle i ddysgu am arfer diogelu da yng nghyd-destun y trydydd sector

12 Mehefin 2019, Rhyl
25 Mehefin 2019, Caerdydd

Brexit ac Anabledd yng Nghymru
Mae Anabledd Cymru ar y cyd â Fforwm Brexit WCVA yn cynnal trafodaeth ford gron ar oblygiadau Brexit i Bobl Anabl a Mudiadau Pobl Anabl yng Nghymru.

6 Mehefin 2019, Caerdydd

Newyddion gwirfoddoli

Ffurfio cysylltiadau
The Association of Volunteer Managers is delighted to return to the beautiful SS Great Britain in Bristol for a second year. With delegates coming from Wales, Wiltshire and beyond – the event is expected to sell out again this year.

Amser i ddathlu!
Achlysur blynyddol i ddathlu gwirfoddolwyr yw Wythnos Gwirfoddolwyr ym mis Mehefin bob blwyddyn ac mae'n gyfle perffaith i ddiolch i'ch gwirfoddolwyr.

Gwobrau Arwain Cymru ar agor i enwebiadau

Mae'r gwobrau blynyddol ar gyfer arweinyddiaeth yng Nghymru bellach yn derbyn enwebiadau mewn 9 categori – gan gynnwys Arweinyddiaeth yn y Sector Gwirfoddol a Dielw.

Polisi a prosiectau

Cymru Iachach
Beth yw'r ffordd orau i'r trydydd sector chwarae ei ran yn trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol? Dweud eich dweud yn ein cynhadledd YFORY - 23 Mai, Stadiwm Caerdydd

Dirprwy Weinidog yn edrych o'r newydd ar waith y llywodraeth gyda'r trydydd sector
Jane Hutt AC yn cynnal ei chyfarfod cyntaf â 12 o gynrychiolwyr Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Creu Gweledigaeth Gyda'n Gilydd – beth y gall mentrau cymdeithasol ei wneud i Gymru?
Mae ar Gymru angen sector mentrau cymdeithasol cryf er mwyn mynd i'r afael â heriau'r degawd nesaf a manteisio ar gyfleoedd newydd. Yr arolwg hwn yw'r cam cyntaf wrth geisio am eich help a'ch cyngor yn y broses hon.

Cyllid diweddaraf

Cronfa Solving Together gan Nesta
Cronfa ac ynddi £40,000 i gefnogi dwy ymyrraeth gynnar sydd â photensial mawr i gynnwys rhieni yn fwy mewn mathemateg.

Cronfa Ffyrdd Rees Jeffreys
Mae rhwng £5,000 a £25,000 ar gael i grwpiau i gefnogi prosiectau ymchwil, addysg a gwella ymyl ffyrdd sy'n hybu datblygiadau o ran polisi, dylunio, rheoli ac arfer trafnidiaeth yn y Deyrnas Unedig.

Sefydliad Canŵio

Mae rhwng £2,000 ac £20,000 ar gael i grwpiau sydd am wella hygyrchedd i ddefnyddio dŵr a chyfleusterau ar gyfer canŵio.